Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Prentisiaethau iau

## *Canllawiau i Awdurdodau Lleol a sefydliadau addysg bellach*

Mae’r fersiwn hon o’r canllawiau’n ddilys nes hysbysir y sector fel arall.

Cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2026

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 3
2. Diben y Rhaglen ..... 3
3. Cytundeb Lefel Gwasanaeth ..... 4
4. Talu a Chyllid ..... 4
5. Cyfrifoldebau a Awgrymir ..... 5
   i. Coleg AB ..... 5
   ii. Ysgol ..... 6
   iii. Awdurdod Lleol ..... 7
6. Cymhwystra a Gofynion Mynediad Dysgwyr ..... 8
7. Manylebau'r Rhaglen ..... 8
   i. Trosolwg o'r Rhaglen ..... 8
   ii. Cynnwys y Rhaglen ..... 9
   iii. Gofynion Cyflwyno Data ..... 10
8. Monitro ac Archwilio ..... 11
   i. Dull Monitro ..... 11
   ii. Profion Archwilio ..... 11
9. Rhagor o Wybodaeth a Manylion Cyswllt ..... 11

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Canllawiau Rhaglen hyn yn nodi'r gofynion ar gyfer darparu'r Rhaglen Prentisiaethau Iau. Maent yn darparu trosolwg o ofynion y rhaglen, gan gynnwys amodau cymhwystra a mynediad dysgwyr; a manylion y gofynion cyflwyno data a monitro er mwyn i Medr allu monitro'r ddarpariaeth a deilliannau dysgu ar gyfer y Rhaglen Prentisiaethau Iau.

Mae'r Canllawiau hyn hefyd yn rhan o'r cytundeb rhwng sefydliadau Addysg Bellach (AB) a Gweinidogion Cymru ar gyfer darparu a chyllido'r Rhaglen Prentisiaethau Iau. Rhaid i chi sicrhau bod eich darpariaeth Prentisiaethau Iau'n ymlynu wrth y Fanyleb Rhaglen hon.

Gall y ddogfen hon gael ei newid neu ei diwygio i gyd-fynd ag unrhyw ganllawiau wedi'u diweddaru a gaiff eu rhyddhau mewn perthynas â dysgwyr mewn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS).

## 2. Diben y Rhaglen

Mae Prentisiaethau Iau'n cynnig y cyfle i ddisgyblion ym mlwyddyn 10 ac 11 o bob gallu, sydd â'r tueddfryd iawn ar gyfer astudiaethau galwedigaethol, astudio darpariaeth alwedigaethol amser llawn o ansawdd ar gyfer gyrfa yn y dyfodol, a hynny mewn lleoliad coleg. Mae'r rhaglen yn cynnig rhaglen ddwy flynedd o addysg sy'n gysylltiedig â gwaith gyda phrofiad gwaith wedi'i gynnwys, ochr yn ochr â chwrs Lefel 1 neu Lefel 2 mewn amrywiaeth o wahanol lwybrau galwedigaethol, a all fod yn gyfwerth â hyd at bedwar neu bum TGAU. Yn amodol ar drefniadau lleol, gellir trefnu bod opsiwn un flwyddyn ar gael. (Dim ond i ddysgwyr ym mlwyddyn 11 y byddai hyn yn berthnasol, gan y byddai'n rhoi cyfle i golegau gefnlenwi lleoedd a adawyd gan ddysgwyr a roddodd y gorau i'r rhaglen cyn ei chwblhau.)

Dylai pob prentis iau hefyd astudio cymhwyster 'heriol, uchelgeisiol ac ymestynnol' mewn Mathemateg a Saesneg.

Yn ychwanegol at y ddarpariaeth uchod, dylai pob prentis iau hefyd allu cael cymorth i ddysgu, help i reoli ymddygiad, a Swyddog Lles dynodedig er mwyn helpu i ddelio â materion o ddydd i ddydd a chynnig gofal bugeiliol.

Prif nod y Rhaglen Prentisiaethau Iau yw:

- sicrhau bod dysgwyr a fyddai fel arall yn wynebu risg o ymddieithrio oddi wrth addysg yn cael llwybr ystyrlon at addysg bellach, prentisiaeth a chyflogaeth.

Mae'r rhaglen yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddysgwyr ym mlwyddyn 10 ac 11:

- fynychu'r coleg ar sail amser llawn (ac eithrio dysgwyr sy'n gwneud TGAU yn eu hysgol 'gartref'), a gwneud rhaglen ddwy flynedd o addysg sy'n gysylltiedig â gwaith gyda phrofiad gwaith wedi'i gynnwys;
- cael y cyfle i wneud rhaglen Lefel 1 neu Lefel 2 alwedigaethol amser llawn (sy'n gyfwerth â hyd at bedwar neu bum TGAU) mewn ystod o lwybrau galwedigaethol trwy amgylcheddau a phrofiadau cyfoethogol a chyffrous; yn ogystal ag astudio

TGAU (neu gymwysterau ‘heriol, uchelgeisiol ac ymestynnol’ priodol eraill fel y disgrifir uchod) mewn Mathemateg a Saesneg/ Cymraeg.

Bydd darparu’r rhaglen Prentisiaethau Iau yn llwyddiannus yn:

- dibynnu ar gydweithio agosach rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a SABau
- datblygu perthnasoedd â busnesau a darparwyr hyfforddiant gyda digon o hyblygrwydd i weddu i’r cyd-destun lleol.
- cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb dysgwyr, eu cyrhaeddiad a’u cyfranogiad ôl-16, gan arwain at:
    - ostyngiad yn nifer y dysgwyr nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)
    - galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol ehangach a dod yn fwy annibynnol.

## 3. Cytundeb Lefel Gwasanaeth

**Cyllidir y Rhaglen Prentisiaethau Iau gan yr Awdurdod Lleol yn bennaf ac felly mae’n hanfodol bod yr ALl a’r Coleg AB yn dod i gytundeb cyn y cytunir ar y ddarpariaeth hon.**

Dylid sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth (SLA) rhwng yr awdurdod lleol, yr ysgol y byddai dysgwr yn ei mynychu fel arfer a’r coleg AB lle bydd y dysgwr yn cyfranogi yn y rhaglen Prentisiaethau Iau. Mae’r cytundeb lefel gwasanaeth yn ffurfioli’r perthnasoedd rhwng yr **holl** bartïon, trwy nodi’r priod rwymedigaethau a chyfrifoldebau mewn perthynas â pherfformiad, safonau gwasanaeth a rheoli.

Dylai’r cytundeb lefel gwasanaeth redeg rhwng 1 Medi a 30 Mehefin ym mhob blwyddyn academaidd ac ar yr adeg honno ac yn dilyn ymgynghori â’r partïon perthnasol, bydd cytundeb lefel gwasanaeth diwygiedig ar gael i’w ystyried. Ym mis Ionawr ym mhob blwyddyn academaidd bydd yr holl bartïon yn cwrdd i adolygu’r rhaglen a thrafod unrhyw newidiadau posibl.

Er mwyn terfynu’r cytundeb lefel gwasanaeth cyn 30 Mehefin ym mhob blwyddyn academaidd bydd 6 mis o rybudd yn ofynnol ar y naill ochr a’r llall.

## 4. Talu a Chyllid

Bydd ysgolion, trwy’r awdurdod lleol, yn cyfrannu cyllid ar gyfer pob dysgwr sy’n mynychu’r Rhaglen Prentisiaethau Iau. Dylai lefel y cyllid a threfniadau talu fod yn drefniant lleol rhwng pob coleg ac ALl/ ysgol.

Darperir cyllid ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim, y Grant Datblygu Disgyblion ac ADY i Awdurdodau Lleol trwy’r Grant Cynnal Refeniw a grantiau eraill gan Lywodraeth Cymru. Colegau sy’n gyfrifol am negodi’r cyllid a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer Prentisiaethau Iau.

Bydd pob Coleg yn hawlio cyllid ychwanegol gan Medr fel y nodir yng Nghyfeiriadur Rhaglenni Ôl-16 Medr ar gyfer 2026/27.

Bydd cost lawn cludiant rhwng y cartref a'r coleg ar gyfer dysgwyr o ysgolion sy'n rhan o'r Rhaglen Prentisiaethau Iau'n cael ei thalu gan yr ALl, lle mae dysgwyr yn bodloni'r meini prawf cymhwystra.

## 5. Cyfrifoldebau a Awgrymir

### i. Coleg AB

Dylai'r coleg AB:

- Ddarparu cynrychiolydd dynodedig i gynnal cyswllt â Phennaeth yr ysgol / y Pennaeth Blwyddyn yn yr ysgol.
- Cydweithio gyda'r ysgol a'r ALl i sicrhau proses ddethol gadarn sy'n cynnwys pennu tueddfryd dysgwr ar gyfer dysgu galwedigaethol.
- Rhannu gwybodaeth gyda dysgwyr, rhieni, ysgolion i sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth lawn am addasrwydd cyrsiau unigol, gan gymryd gofal i osgoi a goresgyn stereoteipiau traddodiadol ynglŷn â'r rhywiau. Rhannu a chytuno ar gynnwys y cwricwlwm a threfniadau amserlen gydag ysgolion partner ac awdurdodau lleol ar gyfer yr holl ddysgwyr a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar ddysgwyr unigol, megis trefniadau rhaglenni cymorth bugeiliol, a ddylai gael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Sicrhau bod sesiynau dysgwyr yn cael eu hamserlennu ar sail amser llawn (argymhellir isafswm o 25 awr).
- Sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cymryd rhan mewn rhaglen sefydlu lawn ac yn cael asesiad cychwynnol (dylai ALlau sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu sefydlu).
- Cytuno ar drefniadau teithio gan ddysgwyr gydag ysgolion partner ac ALlau, er enghraifft teithio i ac o'r coleg ar gludiant a neilltuwyd ar gyfer teithio rhwng y cartref a'r ysgol neu'r coleg, neu bàs teithio ar gyfer teithio am ddim ar gludiant cyhoeddus.
- Cwblhau trefniadau i gofrestru ar gyfer arholiadau a chynnal arholiadau.
- Cyflawni asesiadau risg unigol cadarn ac egluro'r cyfrifoldeb am drefniadau diogelu ar gyfer yr holl ddysgwyr gan gynnwys asesiadau risg gweithredol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw leoliadau profiad gwaith a drefnwyd gan y coleg.
- Dilyn 'Gweithdrefnau Amddiffyn Plant ac Oedolion Cymru Gyfan 2008' a 'Chanllawiau'r Ddyletswydd Prevent 2015' wrth ymdrin â datgeliadau, pryderon neu honiadau ynghylch diogelwch, lles a llesiant.
- Rhannu data perfformiad ac adroddiadau am ddysgwyr gydag ysgolion a threfnu nosweithiau rhieni.
- Cadw cofnodion presenoldeb cywir; a rennir yn rheolaidd gydag ysgolion e.e. yn wythnosol.
- Darparu cyfleusterau pwrpasol ar gyfer dysgwyr, lle y bo'n bosibl, i feithrin amgylchedd dysgu cefnogol a hybu ymddygiad adeiladol.

- Darparu, lle y bo’n ddichonadwy, staff wedi’u neilltuo i’r rhaglen i ddarparu gwersi TGAU a gweithredu fel anogwyr dysgu.
- Sicrhau y cyrhaeddir safonau ac y cwrddir â disgwyliadau o ran ymddygiad yn unol â pholisi ymddygiad y Coleg a chynnal cyswllt ag ysgolion i ymdrin ag unrhyw faterion. Yn dilyn cynnal cyswllt â’r ysgol, os yw materion ymddygiad yn dal heb eu datrys, dylai’r Coleg ddilyn eu gweithdrefnau disgyblu eu hunain, gan sicrhau bod rhiant/ gofalwr a chynrychiolydd ar ran yr ysgol/ ALl yn bresennol.
- Trefnu bod ALlau’n cael eu hanfonebu a chofnodi data priodol i sicrhau eu bod yn cael cyllid cywir ar gyfer y rhaglen mewn modd amserol gan Medr.

- Cyflwyno data amserol i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn unol ag Egwyddorion Rheoli Data Ôl-16 2022.

### ii. Ysgol

Dylai’r ysgol:

- Aseinio cynrychiolydd dynodedig i gynnal cyswllt â’r Coleg AB.
- Cydweithio gyda’r Coleg a’r ALl i sicrhau proses ddethol gadarn sy’n cynnwys pennu tueddfryd dysgwr ar gyfer dysgu galwedigaethol
- Cydweithio gyda’r Coleg i sicrhau bod darpar ddysgwyr a rhieni/gofalwyr yn cael cyngor ac arweiniad diduedd cynhwysfawr ynghylch yr holl opsiynau o ran y cwricwlwm, yn ogystal â Phrentisiaethau Iau lle mae’r rhain ar gael, a lle byddent yn briodol i’r dysgwr unigol.
- Cefnogi dysgwyr gyda’r broses ymgeisio ar-lein a chael cydsyniad rhieni i ddysgwyr wneud cais ar gyfer y rhaglen.
- Cwblhau’r ffurflen atgyfeirio’n llawn â’r holl wybodaeth berthnasol.
- Parhau i ddarparu Mathemateg, Saesneg/Cymraeg, lle cytunwyd ar hyn fel rhan o drefniadau lleol.
- Darparu gwybodaeth briodol am ddysgwyr ar gyfer y Coleg, h.y. lefelau llythrennedd a rhifedd, anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys cynlluniau datblygu unigol, hanes bugeiliol ac ymddygiadol.
- Darparu gwybodaeth ar gyfer yr adolygiadau blynyddol o ddysgwyr â Chynlluniau Datblygu Unigol.
- Enwebu cyswllt gweinyddol, h.y. Swyddog Lles Addysg ar gyfer materion sy’n ymwneud â phresenoldeb.
- Cynnal cyswllt â’r Coleg i ymdrin ag unrhyw faterion o ran ymddygiad a chynrychioli dysgwyr mewn gwrandawiadau disgyblu lle y bo’n ofynnol.
- Penderfynu gyda’r ALl sut y bydd dysgwyr yn cael eu cofrestru, gan nodi manteision cofrestru deuol, a fyddai’n galluogi dysgwyr i ddychwelyd i’w hysgol ‘gartref’ pe bai angen, ac yn atal dysgwyr rhag cael eu tynnu oddi ar gofrestr yr ysgol.
- Darparu cyllid i’r ALl ar gyfer pob un o ddysgwyr y Rhaglen Prentisiaethau Iau ar gyfer y lleoliad yn y Coleg, yn amodol ar drefniadau cyllido y cytunwyd arnynt gan yr holl bartïon.
- Cymryd cyfrifoldeb am asesiadau risg gweithredol ar gyfer dysgwyr lle mae ganddynt gofrestriad deuol. Lle maent wedi cael eu tynnu oddi ar gofrestr yr ysgol,

colegau ddylai gymryd cyfrifoldeb am asesiadau risg gweithredol yn ystod y diwrnod ysgol, pan nad yw dysgwyr ar safle'r Coleg.

- Ymuno mewn cyfarfodydd amlasiantaeth fel y bo'n briodol.
- Ailintegreiddio unrhyw ddysgwr Prentisiaethau Iau ym mlwyddyn gyntaf y rhaglen (blwyddyn 10 neu flwyddyn 11) sy'n gadael y rhaglen yn ystod hanner tymor cyntaf y flwyddyn academaidd i mewn i'r ysgol.
- Atgyfeirio unrhyw rai sy'n gadael y Rhaglen Prentisiaethau Iau y mae'n amhriodol iddynt ddychwelyd i'r ysgol ym marn yr ysgol at y Panel Mynediad at Addysg.

### iii. Awdurdod Lleol

Dylai'r awdurdod lleol:

- Gytuno ar drefniadau cyllido yn y dyfodol ar gyfer prentisiaethau iau gydag ysgolion a cholegau, eu hegluro wrthynt a'u cyfleu iddynt.
- Gwneud a gweithredu trefniadau asesu dechreuol a pharhaus i gefnogi dilyniant dysgwyr.
- Cydweithio gyda'r Coleg a'r Ysgol i sicrhau proses ddethol gadarn sy'n cynnwys pennu tueddfryd dysgwr ar gyfer dysgu galwedigaethol.
- Cymryd cyfrifoldeb am gynnal CDU y dysgwyr (lle y bo'n berthnasol).
- Cydweithio gyda'r holl ysgolion a cholegau lleol i werthuso'r potensial i estyn darpariaeth prentisiaethau iau ar gyfer dysgwyr ym mlwyddyn 10 a blwyddyn 11 sy'n ei chael hi'n anodd ymgysylltu â darpariaeth brif ffrwd bresennol mewn ysgolion.
- Aseinio cynrychiolydd dynodedig i gynnal cyswllt â staff colegau ac ysgolion ynghylch atgyfeiriadau at y rhaglen, cofrestriadau arni a'i hyrwyddo.
- Cwrdd â chynrychiolwyr Colegau/Ysgolion o leiaf unwaith y tymor i fonitro'r modd y caiff y rhaglen ei rhedeg yn weithredol a/neu drafod unrhyw bryderon. Cynnull cyfarfodydd amlasiantaeth yn ôl y gofyn.
- Darparu cydsyniad ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal sy'n gwneud cais ar gyfer y rhaglen.
- Cynorthwyo'r coleg a'r ysgol i ddod o hyd i drefniadau amgen addas i'r dysgwr os nad yw lleoliad yn hyfyw mwyach.
- Rhoi cymorth ac arweiniad mewn perthynas ag unrhyw fater diogelu na ellir ei ddatrys rhwng yr ysgol a'r coleg.
- Cynrychioli dysgwyr mewn gwrandawiadau disgyblu lle nad yw'r ysgol yn gallu bod yn bresennol.
- Tracio cyrchfannau dysgwyr unwaith y maent wedi gadael y Coleg i sicrhau nad ydynt yn rhai Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth Na Hyfforddiant.
- Sicrhau bod trefniadau teithio ar gyfer dysgwyr sy'n rhan o'r Rhaglen Prentisiaethau Iau yn unol â chanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru.

Ceir manteision amlwg i sicrhau cofrestriad deuol yn y coleg a'r ysgol ar gyfer dysgwyr ar Brentisiaethau Iau. Mae'r rhain yn cynnwys lleddfu heriau o ran derbyn i'r ysgol pe bai

dysgwr yn gadael y Rhaglen cyn pryd a bod arnynt angen dychwelyd i'w hysgol 'gartref'. Mae hefyd yn lleihau'r risg bod ysgolion yn tynnu dysgwyr oddi ar y gofrestr.

## 6. Cymhwystra a Gofynion Mynediad Dysgwyr

I fod yn gymwys ar gyfer mynediad ar y rhaglen rhaid i ddysgwr fod rhwng 14 ac 16 oed ac ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11. Rhaid i'r broses ddethol gadarn ystyried a yw'r dysgwr yn wynebu risg o ddod yn rhywun Nad yw mewn Addysg, Cyflogaeth Na Hyfforddiant, a yw'n dangos tueddfryd ar gyfer dysgu galwedigaethol ac a yw'n fwyaf tebygol o gael budd o'r ddarpariaeth hon. Dylai'r dysgwr fod yn gymwys yn gyfreithiol i gael mynediad at addysg yn y DU hefyd.

Ni ddylid ystyried, dan unrhyw amgylchiadau, bod y rhaglen yn ddewis arall yn lle Uned Cyfeirio Disgyblion (math o ysgol a sefydlwyd ac a gynhelir gan awdurdod lleol i ddarparu addysg addas ar gyfer plant a phobl ifanc nad ydynt, oherwydd afiechyd, gwaharddiad neu fel arall, yn cael addysg o'r fath).

## 7. Manylebau'r Rhaglen

### i. Trosolwg o'r Rhaglen

Mae Prentisiaethau Iau ar gael ar Lefel 1 a Lefel 2 ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd mae 10 cod rhaglen i adlewyrchu'r gwahanol lwybrau Prentisiaethau Iau. Dylai rhaglenni Prentisiaethau Iau gael eu darparu ar sail amser llawn (argymhellir isafswm o 25 awr) trwy gydol y flwyddyn academaidd. Rhaid i'r Rhaglen gynnwys cyfleoedd profiad gwaith hefyd i gynorthwyo dysgwyr Prentisiaethau Iau i ddatblygu dyheadau gyrfaol ar gyfer y dyfodol. Gall y rhain fod ar sawl ffurf gan ddibynnu ar y farchnad lafur leol, gan gynnwys gweithgareddau mewn ystafell ddosbarth, megis darpariaeth ddigidol, ymweliadau â gweithleoedd neu ryngweithiadau â mentoriaid a chyflogwyr unigol

Argymhellir nad yw meintiau grwpiau'n fwy na 15 dysgwr.

Dylai pob Prentis Iau fod â mynediad at gymorth gyda dysgu, help gyda rheoli ymddygiad, a Swyddog Lles dynodedig i gefnogi materion o ddydd i ddydd a rhoi gofal bugeiliol. Nod y Brentisiaeth Iau yw gwneud y dysgwr yn gyflogadwy neu'n barod i gamu ymlaen at gwrs galwedigaethol neu brentisiaeth ar lefel uwch pan ydynt yn 16 oed.

Yn unol â gofynion y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer dysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol nad ydynt mewn Uned Cyfeirio Disgyblion, rhaid i drefniadau sicrhau bod darpariaeth:

- yn galluogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben.
- yn addas ar gyfer oedrannau, galluoedd a thueddfrydau'r dysgwyr.
- yn eang a chytbwys (fel sy'n briodol i bob dysgwr) ac yn cynnig dilyniant priodol.
- yn sicrhau, hyd y bo'n briodol i'r dysgwr unigol, dysgu sydd
  - yn datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd.
  - yn cwmpasu'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles.

- yn cwmpasu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n briodol i gam datblygiadol pob dysgwr.

lle y bo'n rhesymol bosibl ac yn briodol gwneud hynny, yn cynnwys dysgu ar elfennau eraill y cwricwlwm, sy'n cynnwys y meysydd dysgu a phrofiad a'r elfennau gorfodol.

## ii. Cynnwys y Rhaglen

### 1. Gofynion y Cwricwlwm i Gymru

Yn unol â'r Canllawiau ar Ddysgu 14 i 16 dan y Cwricwlwm i Gymru, dylai pob prentis iau astudio cymhwyster 'heriol, uchelgeisiol ac ymestynnol' mewn Mathemateg a Saesneg hefyd. I rai dysgwyr Prentisiaethau Iau, gallai hyn olygu cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru – mae hyn yn cynnwys dyfarniad integredig sengl Iaith a Llenyddiaeth Saesneg i ddysgwyr a allai gael budd o astudio cymhwyster llai. I ddysgwyr Prentisiaethau Iau eraill, mae'n bosibl y bydd cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru Lefel 1 a Lefel 2 (sy'n dal wedi'u dynodi ac ar gael i ddysgwyr cyn-16 ar hyn o bryd) yn fwy addas.

Dylai'r dysgu a'r profiadau a geir gan ddysgwyr Prentisiaethau Iau, hyd y bo'n briodol i ddysgwyr unigol, gynnwys pob un o 4 elfen yr hawl i ddysgu 14 i 16:

- Myfyrio ar ddysgu a chynnydd a chynllunio ôl-16.
- Cymwysterau mewn llythrennedd a rhifedd (fel a ddisgrifir uchod).
- Cymwysterau i annog ehangder (y dewis lwybr Lefel 2).
- Dysgu a phrofiadau ehangach ar draws y cwricwlwm (elfennau gorfodol sy'n cwmpasu Iechyd a Lles, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a Sgiliau Trawsgwricwlaidd).

Rhagrybudd ynghylch cymwysterau newydd ar gyfer 2027

- O fis Medi 2027 ymlaen, bydd cymwysterau Sylfaen newydd ar gael i ddysgwyr 14 i 16 oed yng Nghymru mewn amrywiaeth o bynciau cyffredinol a chysylltiedig â gwaith. Byddant wedi'u bwriadu ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn teimlo'n barod i astudio cymwysterau **TGAU** a/neu **TAAU** o bosibl. Byddant yn rhychwantu Lefel Mynediad a Lefel 1 (ac eithrio'r cymwysterau Cymraeg).
- O fis Medi 2027 ymlaen, bydd cymwysterau Y Gyfres Sgiliau newydd ar gael i ddysgwyr 14 i 16 oed yng Nghymru. Byddant yn rhychwantu Lefel Mynediad i Lefel 2 ac yn cynnwys amrywiaeth o destunau cynhwysol er mwyn datblygu sgiliau gwaith a bywyd effeithiol a pherthnasol.
- Bydd y cymwysterau newydd wedi'u bwriadu gyfer dysgwyr 14–16 oed yn bennaf, gan gynnig sylfaen eang ar gyfer camu ymlaen i addysg ôl-16, beth bynnag fo'r lleoliad y cânt eu cwblhau ynddo. Ceir cysondeb clir â'r amrywiaeth o lwybrau a gynigir ar hyn o bryd o dan y rhaglen Prentisiaethau Iau ac mae Cymwysterau Cymru wedi cadarnhau eu bod yn addas i sefydliadau addysg bellach eu cyflwyno i ddysgwyr Prentisiaethau Iau.
- Dylid nodi na fydd y cymhwyster TGAU Saesneg Iaith newydd i ddysgwyr ôl-16 (addysgu gyntaf ym mis Medi 2027) ar gael i ddysgwyr cyn-16, waeth beth fo'r lleoliad dysgu. Y rheswm dros hyn yw y bydd y cymhwyster yn adeiladu ar brofiadau blaenorol dysgwyr o'r cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg integredig

newydd ac wedi'i fwriadu ar gyfer dysgwyr sy'n ailsefyll y cymhwyster TGAU yn bennaf.

### 2. Llwybr Dysgwyr Lefel 2

Rhaid i'r prif gymwysterau o fewn rhaglenni dysgu gael eu dewis o blith y rhai a restrir yng nghronfa ddata QiW fel rhai sy'n gymwys i gael cyllid ac sydd wedi'u cymeradwyo i gael eu cyflwyno.

### 3. Gyrfaoedd a Phrofiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith

Fel uchod, anogir sefydliadau AB i weithio gyda chyflogwyr i ddarparu profiadau gwaith ystyrlon ac ymarferol i ddysgwyr.

## iii. Gofynion Cyflwyno Data

Bydd Medr yn defnyddio data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) i fonitro sut y mae sefydliadau AB yn perfformio yn erbyn eu targedau ac i fonitro'r modd y darperir y rhaglen a deilliannau dysgu ar gyfer y Rhaglen Prentisiaethau Iau.

Yn unol â'r amodau a nodir yn y Telerau ac Amodau Cyllid: chweched dosbarth awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach blynyddol ar gyfer 2026/27 (y gellir ei gweld ar wefan Medr yn: Cyllid i ddarparwyr) rhaid i sefydliadau sicrhau y caiff data eu cyflwyno yn y fformat cywir ac yn amserol.

Mae Llawlyfr Cymorth i Ddefnyddwyr Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn nodi'r canllawiau y dylai sefydliadau eu dilyn wrth anfon data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol.

| | |
|---|---|
| 0104AJAB | Prentisiaethau Iau – Gwasanaethau Cyhoeddus |
| 0301AJAB | Prentisiaethau Iau – Tirlunio |
| 0401CJAB | Prentisiaethau Iau – Saernïo a Weldio |
| 0401HJAB | Prentisiaethau Iau – Peirianneg Fodurol |
| 0502AJAB | Prentisiaethau Iau – Adeiladu |
| 0703AJAB | Prentisiaethau Iau – Gwallt a Harddwch |
| 0704BJAB | Prentisiaethau Iau – Lletygarwch ac Arlwyo |
| 0903AJAB | Prentisiaethau Iau – Y Cyfryngau |
| 1401AJAB | Prentisiaethau Iau – Twf Personol |
| 1402AJAB | Prentisiaethau Iau – Addysg Gysylltiedig â Gwaith |

.

Pan na fydd y ddarpariaeth a gynigir yn perthyn i'r llwybrau a nodir o fewn y rhaglenni uchod, dylai'r coleg addysg bellach gwblhau a dychwelyd ffurflen ‘Cais am Raglen Newydd’ i Medr yn BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru. Ni ddylid cofrestru dysgwyr ar lwybr newydd cyn i Medr ei gymeradwyo.

## 8. Monitro ac Archwilio

### i. Dull Monitro

Bydd y dull o fonitro’n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Cydymffurfio â Manyleb y Rhaglen – bydd Medr yn defnyddio data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru i fonitro’r modd y cydymffurfir â manyleb y rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys monitro’r data o setiau data’r rhaglen a gweithgareddau i wirio bod gofynion darparu’r rhaglen yn cael eu hateb.

a

- Deilliannau dysgu ar gyfer y Rhaglen Prentisiaethau Iau – mae cyrchfannau dysgwyr yn fesur perfformiad allweddol ar gyfer y rhaglen, ac yn hollbwysig i werthuso'r modd y darperir y rhaglen. Disgwylir y bydd y mwyafrif o ddysgwyr sy’n cwblhau’r Rhaglen Prentisiaethau Iau’n llwyddiannus yn camu ymlaen at ddysgu pellach, prentisiaeth neu gyflogaeth pan ydynt yn 16 oed.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy gyfuniad o fonitro yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn ac ymarfer paru data.

### ii. Profion Archwilio

Yn ychwanegol at y dull o fonitro a nodir uchod, bydd data a ddychwelir gan sefydliadau AB yn ddarostyngedig i ofynion archwilio diwedd blwyddyn. O fewn hyn, bydd pwyslais penodol yn cael ei roi ar y *Canllawiau Archwilwyr* i sicrhau bod archwilwyr allanol yn samplu dysgwyr sy’n gwneud y Prentisiaethau Iau mewn modd priodol.

Bydd y gofynion archwilio ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol yn cael eu cyhoeddi ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

## 9. Rhagor o Wybodaeth a Manylion Cyswllt

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys y ddogfen ganllawiau hon, cysylltwch â Medr yn BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**